# Cyflwyniad i'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir – rhan o Gwricwlwm i Gymru



Datblygwyd y cwricwlwm hwn ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir am ei fabwysiadu, pe bydden nhw'n dymuno gwneud hynny. Dylai lleoliadau sy'n dewis mabwysiadu'r cwricwlwm hwn ei ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gefnogi cynllunio effeithiol er mwyn sicrhau cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf.



**At ddefnydd y canlynol y mae yn bennaf:**

- arweinwyr, ymarferwyr a phwyllgorau rheoli lleoliadau meithrin nas cynhelir sy'n cael eu hariannu i ddarparu addysg gynnar yng Nghymru
- arweinwyr, ymarferwyr a phwyllgorau rheoli lleoliadau meithrin nas cynhelir nad ydyn nhw'n cael eu hariannu i ddarparu addysg gynnar ond y mae'n ofynnol, o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, iddyn nhw ymarfer yn unol â gofynion statudol y cwricwlwm

**Wrth gyflawni dyletswydd statudol Llywodraeth Cymru, mae'r cwricwlwm hwn yn bodloni'r gofynion canlynol:**

## Y Pedwar Diben

**Yn y pen draw, nod cwricwlwm hwn yw i gefnogi ein plant i ddod yn:**

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- gyfranwyr mentrus, creadigol
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- unigolion iach, hyderus

**Mae'n arbenning o bwysig i ni sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ein lleoliad yn darparu cyfleoedd cyson ar gyfer y canlynol:**

- chwarae a dysgu seiliedig ar chwarae
- bod yn yr awyr agored
- dysgu dilys a phwrpasol
- llythrennedd corfforol

## Beth sydd yn newydd?

**Oedolion sy'n galluogi Dysgu**

Dylem –

- gwneud cysylltiadau cryf â chartref a chymuned y plentyn
- fodelu agwedd lawen at ddysgu
- annog a chefnogi chwilfrydedd naturiol plant

**Profiadau sy'n ennyn diddordeb**

Dylent –

- fod yn ymarferol, yn bwrpasol ac yn ystyrlon i'r plentyn
- annog plant i fod yn annibynnol, gan gynnig risg, her a chyfleoedd i brofi llwyddiant
- fod yn seiliedig ar gyd -destunau dilys bywyd go iawn

**Amgylcheddau effeithiol**

Dylent –

- fod tu mewn a thu allan ac yn brofiadau dilys
- cynnig cyfleoedd i archwilio'r amgylchedd – tu fewn a thu allan
- galluogi plant i fynegi eu hunain yn gorfforol, yn greadigol ac yn ddychmygus

# Anghenion y plentyn – Y Llwybrau Datblygu

Wrth wraidd y cwricwlwm hwn mae pum llwybr datblygu allweddol sy'n hanfodol er mwyn i bob plentyn ifanc ddysgu a datblygu. Mae'r llwybrau datblygu hyn yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn ddibynnol ar ei gilydd, ac maen nhw yr un mor bwysig â'i gilydd o ran cefnogi datblygiad a chynnydd cyffredinol. Dylid defnyddio'r pum llwybr datblygu mewn ffordd holistaidd wrth gynllunio profiadau dysgu er mwyn sicrhau bod plant yn dysgu mewn ffordd dilys a phwrpasol.

**Y pum llwybr datblygu yw:**

### Perthyn

Gall yr ymdeimlad hwn arwain at deimladau cadarnhaol o gysylltiad â'r cartref a'r lleoliad, a gall ymestyn i'r gymuned, i Gymru ac i'r byd ehangach.

### Cyfathrebu

Mae cyfathrebu'n ymwneud â meithrin sgiliau gwrando, talu sylw a deall, ochr yn ochr â geirfa a sgiliau siarad.

### Archwilio

Mae plant yn ddatryswyr problemau parhaus sy'n aml yn cael pleser mewn digwyddiadau pob dydd ac yn cael eu rhyfeddu ganddyn nhw.

### Datblygiad corfforol

Mae gan blant angen naturiol i symud, neu gael eu symud, ac i symud gwrthrychau a'u trin a'u trafod, yn aml dro ar ôl tro, fel rhan o'u datblygiad.

### Lles

Mae'r oedolion, y profiadau a'r amgylcheddau y mae plant yn dod ar eu traws yn dylanwadu arnyn nhw. Pan fydd y tri yn cydweithio'n llwyddiannus, byddan nhw'n creu ymdeimlad cryf o les i bawb.




# Pa gefnogaeth sydd ar gael ac beth sydd i ddod?

**Dysgu proffesiynol ar gyfer cwricwlwm i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir**

Mae modiwlau newydd wedi'u datblygu i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi i roi cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ar waith.

Mae'r gyfres newydd o fodiwlau yn cyd-fynd â'r modiwlau a gyhoeddwyd ar Hwb, ac maent wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

Mae pob modiwl bellach ar gael ar Hwb a byddant yn eich helpu i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r pynciau canlynol:

- Y Cwricwlwm i Gymru a datblygu cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Y pum llwybr datblygiadol ac addysgeg
- Arweinyddiaeth mewn lleoliad meithrin nas cynhelir
- Datblygiad sgematig

Fe fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi trefniadau asesu newydd fydd yn cyd-fynd gyda'r cwricwlwm erbyn Medi 2023.